

SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---------------------|---|
| TEITL SWYDD: | Prentis Gwaith Plymio Aml Sgil |
| YN ATEBOL I: | Goruchwyliwr y Gweithlu |
| ADRAN: | Gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw |
| CYFLOG (£): | £11,382 y flwyddyn / £218.30 yr wythnos neu gyfatebol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol / Cyflog Byw |

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Fel Prentis Gwaith Plymio Aml Sgil, byddwch yn gweithio gyda'r Gweithwyr Plymio Aml Sgil yn ddyddiol gan ymgymryd y bennaf â gwaith plymio a gwresogi, a gwaith trwsio ar eiddo CCG lle mae tenantiaid yn byw ynddynt ac ar dai gwag, mannau cyffredin, asedau cysylltiol a gwaith cytundebol arall ar draws y Sir ac ardaloedd cyfagos.

Y mathau gwahanol o waith yw: trwsio gwaith brics, plastro, gwaith coed, plymio, peintio ayyb i ansawdd â pherfformiad penodol.

Datblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar werth am arian drwy 'wneud pethau yn iawn y tro cyntaf' a 'chadw at ein gair' a rhagori ym maes lechyd, Diogelwch, Safon ac Amgylchedd (IDAA) mewn partneriaeth â Chwsmeriaid, Staff a Darparwyr Gwasanaeth.

GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD

Bydd y swydd hon o gymorth i Cartrefi Cymunedol Gwynedd gyflawni ei weledigaeth:

Bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau

Drwy gadw at ein gwerthoedd:

- Teg
- Atebol
- Agored
- Arloesol
- Cyfeillgar

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Darparu gwasanaethau cyson yn unol â chod ymddygiad CCG, cyfleoedd cyfartal a pholisïau a gweithdrefnau urddas yn y gwaith a gwneud hyn o fewn eich gwaith o ddydd i ddydd.
- Rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol er mwyn gwneud gwaith aml sgil a gwaith cynnal a chadw.
- Cynorthwyo i arwain ar ddatblygu mentrau newydd a gwelliannau i wasanaeth.
- Cyfrannu at bolisi amgylcheddol CCG drwy leihau unrhyw effaith amgylcheddol y gall y gwasanaeth ei greu.
- Mynychu cwrs coleg penodol a gweithio i gwrdd â'r gofynion y mae'r coleg yn eu gosod.
- Ymgymryd â thasgau o dan oruchwyliaeth a thrafod amserlenni gwaith gyda Chynllunwyr Adnoddau, Goruchwyliwr Gwaith. Rheolwyr Gwasanaeth a chrefftwyr eraill, lle bo'n berthnasol.
- Cwblhau tasgau i'r safon ansawdd perthnasol a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â thargedau ac amserlenni.
- Ymgymryd â dyletswyddau yn unol â safonau gwasanaeth CCG.
- Sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lechyd Diogelwch CCG a dangos ymrwymiad i ragori ym maes IDAA.
- Sicrhau bod offer diogelu personol (PPE) yn cael eu defnyddio ar bob achlysur a bod cerdyn adnabod CCG yn cael ei gario a'i ddefnyddio gennych bob amser.
- Bod yn ymwybodol o beryglon ar safleoedd a gwneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd ag asesiadau a dulliau rheoli risg sydd mewn lle.
- Sicrhau mynychu apwyntiadau gwaith sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw ar amser a mynychu sesiynau hyfforddi fel ac mae'r rheolwr llinell yn gofyn i chi wneud.
- Cynorthwyo i gynnal gwiriadau cerbyd yn unol â pholisi a gweithdrefnau fflyd CCG.
- Cynorthwyo i gydlynu, cynllunio ac archebu deunyddiau a chynllunio ar gyfer tasgau.
- Sicrhau bod Goruchwyliwr y Gweithlu yn gwybod bod tasgau wedi eu gorffen a'ch bod chi yn gweithio'n galed bob amser.

- Cynnal cefnogaeth a ffydd gweithwyr ac isgcontractwyr ar safle.
- Cynnig i gynorthwyo i gynghori tenantiaid o ran cynnal a chadw eiddo a chynghori Rheolwyr o ran anghenion gwasanaeth posib yn y dyfodol i sicrhau bod adnoddau digonol wedi eu cynllunio. Dyrchafu unrhyw faterion lles neu gam reoli difrifol sy'n ymwneud ag eiddo i'r goruchwyliwr gwaith.
- Sicrhau bod cwynion gan gwsmeriaid, materion diffyg mynediad ac unrhyw wrthodiadau yn cael eu dwyn i sylw eich rheolwr llinell yn syth.
- Cymryd cyfrifoldeb am ei lles lechyd a Diogelwch ei hun bob amser tra eich bod chi ar safle
- Cyfrannu at lwyddiant fframwaith rheoli perfformiad CCG yn enwedig amcanion personol allweddol drwy'r system werthuso.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio o fewn y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw ganllawiau deddfwriaethol perthnasol.
- Gweithio fel aelod effeithiol o dîm sy'n rheoli ei hun gyda theimlad o gyfrifoldeb ar y cyd a phwrpas a darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr pan fo angen.

AMODAU'R SWYDD:

- Bydd hyfforddiant 'mewn swydd' a mynychu'r coleg yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mynd sicrhau cynnydd yn ystod y cynllun prentisiaeth. Gall methu a chwrdd â'r safonau sydd wedi eu nodi yn y cynllun olygu bod prentisiaeth y gweithiwr yn dod i ben.
- Bydd penodiad i'r swydd yn cael ei gynnig ar gytundeb dros dro 12 mis yn y lle cyntaf gyda posibilrwydd o estyniad ar gyfer gweddill y prentisiaeth. Fel bydd gwybodaeth, profiad a chymwysterau deilydd y swydd yn gwella bydd ganddo ef/hi gyfle i wneud cais am swydd barhaol gyda CCG.

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â phopeth a all godi fel rhan o'r swydd ar adegau gwahanol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol, efallai y bydd disgwyl i chi ymgymryd â thasgau eraill rhesymol, sy'n cyfateb i raddau helaeth â'r rhai a geir yn y ddogfen hon fel y pennir gan eich rheolwr llinell, Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu Gyfarwyddwr.

MANYLEB PERSON

| | HANFODOL/ DYMUNOL |
|--|----------------------|
| CYMWYSTERAU | |
| 3 TGAU Gradd D neu uwch gan gynnwys Cymraeg/Saesneg/Mathemateg | H |
| Yn gweithio at Gymhwyster Galwedigaethol yn gysylltiedig â Gwaith Plymio a Gwresogi | H |
| PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU | |
| Profiad ymarferol blaenorol o waith plymio a gwresogi ar y safle | H |
| Profiad ymarferol blaenorol o waith trwsio, cynnal a chadw ar y safle | D |
| Wedi ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad personol pellach | H |
| Dealltwriaeth a gwybodaeth gyffredinol am y ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch diweddaraf gyda gwybodaeth benodol am y diwydiant adeiladu. | D |
| Gallu defnyddio TG a chyfrifiaduron a bysellfwrdd, PDA's (palm top computer) | H |
| Sgiliau rhyngpersonol gwych a gallu i gyfathrebu yn effeithiol gyda chwsmeriaid a chyd-weithwyr | H |
| Gallu blaenoriaethu a threfnu llwyth gwaith eich hun | H |
| Brwdfrydig | H |
| Gallu gweithio yn gywir o dan bwysau mewn tîm. | H |
| Yn gallu dangos eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau | H |
| Gallu ac ar gael i deithio ar draws y Sir | H |
| ARALL | |
| Trwydded Yrru Llawn a dilys | D |
| GOFYNION IEITHYDDOL | |
| Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn rhugl | E |